**Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (189)**

**Dydd Mawrth, 7 Mawrth 2006**

# AGENDA

## Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm

......................................

Eitem 1 - Cynnig i ethol aelod i'r Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol

Eitem 2 - Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

Eitem 3 - Y Datganiad Busnes

Ni chynhelir dadl ar yr eitem hon. Cynhelir pleidlais arni'n syth.
Eitem 4 - Cynnig i gymeradwyo deddfwriaeth o dan Reol Sefydlog 24.25

Eitem 5 - Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Llywodraeth Leol (Cynlluniau Gwella) (Cymru) 2006

Cynnig i drafod y 2 eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân
Eitem 6 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Llywodraethu Corfforaethau Addysg Bellach (Dirymu) (Cymru) 2006

Eitem 7 - Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Corfforaethau Addysg Bellach (Disodli Offerynnau Llywodraethu ac Erthyglau Llywodraethu) (Cymru) 2006 o dan Reol Sefydlog 29.3(iii)

Eitem 8 - Cynnig i gymeradwyo Cyfarwyddiadau Cyfrinachedd a Datgelu Gwybodaeth: Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol a Gwasanaethau Meddygol gan Ddarparwyr Amgen 2006 o dan Reol Sefydlog 29.3(iii)

Eitem 9 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid a Phorthiant (Samplu a Dadansoddi) (Diwygio) (Cymru) 2006

Eitem 10 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau TSE (Cymru) 2006 - ***TYNNWYD YN OL***

Eitem 11 – Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Hawliau Bridwyr Planhigion (Enwi a Ffioedd) 2006

Cynnig i drafod y 3 eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân
Eitem 12 – Cynnig i gymeradwyo Cyfarwyddyd Dwr Daear (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dwr) 2006

Eitem 13 – Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Adnoddau Dwr (Codi a Chronni) 2006

Eitem 14 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (Gwaith Gwella Draenio Tir) 2006

Eitem 15 - Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Geidwadol Cymru

Eitem 16 - Dadl ar ddefnyddio sefydliadau Gwely a Brecwast ar gyfer y digartref

Eitem 17 - Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru)2006

.......................................

## Eitem 1 - Cynnig i ethol aelod i'r Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol

**NDM2874 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â pharagraffau 1(1) ac 1(3) Atodlen 11 Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penodi David Melding AC (Ceidwadwyr) fel aelod Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol i Gymru yn lle Brynle Williams AC (Ceidwadwyr).

.......................................

## Eitem 2 - Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

.......................................

## Eitem 3 - Y Datganiad Busnes

.....................................

***Ni chynhelir dadl ar yr eitem hon. Cynhelir pleidlais arni'n syth.***

## Eitem 4 - Cynnig i gymeradwyo deddfwriaeth o dan Reol Sefydlog 24.25

**NDM2875 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 24.25:

a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 28 Chwefror 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2006; a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag;

i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Chwefror 2006;

ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Chwefror 2006; a

iii) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 28 Chwefror 2006.

Dogfennau Ategol
Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2006
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr Arfarniad Rheoliadol - Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno
Y Memorandwm Cywiriadau

.....................................

## Eitem 5 - Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Llywodraeth Leol (Cynlluniau Gwella) (Cymru) 2006

**NDM2876 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Llywodraeth Leol (Cynlluniau Gwella) (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 31 Ionawr 2006.

**NDM2877 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Chwefror 2006 ynghylch y gorchymyn drafft, Gorchymyn Llywodraeth Leol (Cynlluniau Gwella) (Cymru) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y gorchymyn drafft, Gorchymyn Llywodraeth Leol (Cynlluniau Gwella) (Cymru) 2006 yn cael ei wneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 31 Ionawr 2006; a

b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 31 Ionawr 2006.

Dogfennau Ategol
Gorchymyn Llywodraeth Leol (Cynlluniau Gwella)(Cymru) 2006
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr Arfarniad Rheoliadol - Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno

.....................................

***Cynnig i drafod y 2 eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân***

## Eitem 6 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Llywodraethu Corfforaethau Addysg Bellach (Dirymu) (Cymru) 2006

**NDM2878 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Llywodraethu Corfforaethau Addysg Bellach (Dirymu) (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Chwefror 2006.

**NDM2879 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Chwefror 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Llywodraethu Corfforaethau

Addysg Bellach (Dirymu) (Cymru) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Llywodraethu Corfforaethau Addysg Bellach (Dirymu) (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Chwefror 2006;

b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Chwefror 2006.

Dogfennau Ategol
Rheoliadau Llywodraethu Corfforaethau Addysg Bellach (Dirymu) (Cymru) 2006
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr Arfarniad Rheoliadol - Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno

....................................

## Eitem 7 - Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Corfforaethau Addysg Bellach (Disodli Offerynnau Llywodraethu ac Erthyglau Llywodraethu) (Cymru) 2006 o dan Reol Sefydlog 29.3(iii)

**NDM2880 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Corfforaethau Addysg Bellach (Disodli Offerynnau Llywodraethu ac Erthyglau Llywodraethu) (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Chwefror 2006.

**NDM2881 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol

Gan weithredu dan Reol Sefydlog 29.3 (iii) yn cymeradwyo Gorchymyn Corfforaethau Addysg Bellach (Disodli Offerynnau Llywodraethu ac Erthyglau Llywodraethu) (Cymru) 2006 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Chwefror 2006.

Dogfennau Ategol
Gorchymyn Corfforaethau Addysg Bellach (Disodli Offerynnau Llywodraethu ac Erthyglau Llywodraethu) (Cymru) 2006

....................................

## Eitem 8 - Cynnig i gymeradwyo Cyfarwyddiadau Cyfrinachedd a Datgelu Gwybodaeth: Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol a Gwasanaethau Meddygol gan Ddarparwyr Amgen 2006 o dan Reol Sefydlog 29.3(iii)

**NDM2882 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Cyfarwyddiadau Cyfrinachedd a Datgelu Gwybodaeth: Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol a Gwasanaethau Meddygol gan Ddarparwyr Amgen 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Chwefror 2006.

**NDM2883 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 29.3 (iii):

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau ar 28 Chwefror 2006; a

2. Yn cymeradwyo'r Cyfarwyddiadau Cyfrinachedd a Datgelu Gwybodaeth: Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol a Gwasanaethau Meddygol gan Ddarparwyr Amgen 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Chwefror 2006.

Dogfennau Ategol
Cyfarwyddiadau Cyfrinachedd a Datgelu Gwybodaeth: Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol a Gwasanaethau Meddygol gan Ddarparwyr Amgen 2006
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau

....................................

## Eitem 9 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid a Phorthiant (Samplu a Dadansoddi) (Diwygio) (Cymru) 2006

**NDM2884 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid a Phorthiant (Samplu a Dadansoddi) (Diwygio) (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Chwefror

2006.

**NDM2885 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 28 Chwefror 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid a Phorthiant (Samplu a Dadansoddi) (Diwygio) (Cymru) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid a Phorthiant (Samplu a Dadansoddi) (Diwygio) (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Chwefror 2006; a

b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Chwefror 2006.

Dogfennau Ategol
Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid a Phorthiant (Samplu a Dadansoddi) (Diwygio) (Cymru) 2006
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr Arfarniad Rheoliadol - Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno

..................................

## Eitem 10 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau TSE (Cymru) 2006 - *TYNNWYD YN OL*

**NDM2886 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Enseffalopathi Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Chwefror.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal yn unigol:*

**(1)**
**(2)**

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu nad yw'r tabl prisio a ddefnyddir ar gyfer yr iawndal yn adlewyrchu'n ddigonol yr amrywiad yng nghyflwr ac felly yng ngwerth gwartheg o'r genws bos.

**Gwelliant 2 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnwys sgorio-cyflwr yn y tabl prisio iawndal.

**NDM2887 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Chwefror 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Enseffelopathi Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Enseffalopathi Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Chwefror 2006;

b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Chwefror 2006; ac

c) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 28 Chwefror 2006.

Dogfennau Ategol
Rheoliadau Enseffalopathi Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2006
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr Arfarniad Rheoliadol - Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno
Y Memorandwm Cywiriadau

....................................

## Eitem 11- Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Hawliau Bridwyr Planhigion (Enwi a Ffioedd) 2006

**NDM2894 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 25.13:

Yn cymeradwyo'r rheoliadau drafft, Rheoliadau Hawliau Bridwyr Planhigion (Enwi a Ffioedd) 2006, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 28 Chwefror 2006, ac yn nodi'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Gorchymyn hwn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 28 Chwefror 2006.

Dogfennau Ategol
Rheoliadau Hawliau Bridwyr Planhigion (Enwi a Ffioedd) 2006 - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*
Y Memorandwm Cywiriadau - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

.......................................

*Cynnig i drafod y 2 eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân*

## Eitem 12- Cynnig i gymeradwyo Cyfarwyddyd Dwr Daear (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dwr) 2006

**NDM2892 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 25.13:

Yn cymeradwyo'r cyfarwyddyd drafft, Cyfarwyddyd Dwr Daear (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dwr) 2006 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 28 Chwefror 2006, ac yn nodi'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Gorchymyn hwn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 28 Chwefror 2006.

Dogfennau Ategol
Cyfarwyddyd Dwr Daear (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dwr) 2006 - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*
Y Memorandwm Cywiriadau - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

.......................................

## Eitem 13 – Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Adnoddau Dwr (Codi a Chronni) 2006

**NDM2896 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 25.13:

Yn cymeradwyo'r rheoliadau drafft, Rheoliadau Adnoddau Dwr (Codi a Chronni) 2006, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 28 Chwefror 2006, ac yn nodi'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Gorchymyn hwn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 28 Chwefror 2006.

Dogfennau Ategol
Rheoliadau Adnoddau Dwr (Codi a Chronni) 2006 - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*
Y Memorandwm Cywiriadau - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

…………………………………

## Eitem 14- Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (Gwaith Gwella Draenio Tir) (Diwygio) 2006

**NDM2898 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 25.13:

Yn cymeradwyo'r rheoliadau drafft, Rheoliadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (Gwaith Gwella Draenio Tir) (Diwygio) 2006, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 28 Chwefror 2006, ac yn nodi'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Gorchymyn hwn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 28 Chwefror 2006.

Dogfennau Ategol
Rheoliadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (Gwaith Gwella Draenio Tir) (Diwygio) 2006 - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*
Y Memorandwm Cywiriadau - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

…………………………………

## Eitem 15 - Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Geidwadol Cymru

**NDM2899 Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Alun Cairns (Gorllewin De Cymru); David Melding (Canol De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn mynegi pryder ynghylch methiant Llywodraeth Cynulliad Cymru i dyfu economi Cymru ddigon er mwyn cyrraedd ei tharged o 90% o GYC y DU y pen erbyn 2010 ac yn gresynu at y perfformiad gwael o ran twf yn y Gorllewin a'r Cymoedd er gwaetha'r arian ychwanegol a ddarparwyd dan raglen arian strwythurol Amcan 1 yr UE.

2. Yn nodi cynnwys Adroddiad Terfynol Diweddariad Canol Tymor Amcan 1, sy'n tanlinellu y cydnabuwyd mai dyheadau yn hytrach na nodau y gellid eu gwireddu oedd y targedau ac na chyrhaeddir y targed lefel uchel ar gyfer CDC.

3. Yn mynegi pryder bod yr agwedd a gymerwyd at gynllunio a rheoli'r gefnogaeth strategol ac ariannol a roddwyd i Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru wedi effeithio ar eu gallu i ddatblygu prosiectau'n effeithiol er mwyn cyfrannu at y targedau angenrheidiol; yn galw am ddysgu yn sgîl y gwersi hynny, ac wrth wneud hyn, yn ceisio eglurhad ynghylch y newidiadau i'r dyraniadau Arian Cyfatebol i Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru; a

4. Yn penderfynu yn unol â Rheol Sefydlog 8.1, sefydlu pwyllgor i ymchwilio i hyd a lled unrhyw newidiadau yn yr adnoddau a ddarparwyd i Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru a'r effaith y gallai unrhyw newidiadau o'r fath fod wedi'i chael ar gyflawni prosiectau gyda nawdd strwythurol yn effeithiol:

a) Teitl y pwyllgor fydd y "Pwyllgor ar Ariannu Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru".

b) Aelodau'r pwyllgor fydd pum Aelod Cynulliad, dau o'r Blaid Lafur, un o Blaid Cymru the Party of Wales, un o'r Blaid Geidwadol ac un o Blaid Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Bydd y pwyllgor yn ethol ei gadeirydd ei hun;

d) Cylch Gorchwyl y Pwyllgor fydd:

i. adolygu'r adnoddau a oedd ar gael i Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 03/04 a 04/05 a'r ffynonellau ariannol a oedd ar gael ar gyfer y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ar gyfer y cyfnod hwnnw;

ii adolygu unrhyw newidiadau i'r adnoddau a oedd ar gael i Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 03/04 a 04/05 ac unrhyw effaith a gafodd y newidiadau hyn ar ddatblygu prosiectau a gwerth am arian;

iii. adolygu effeithiolrwydd rheolaeth gyllidebol o fewn Adran Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru dros Gronfeydd Strwythurol a Chronfeydd

Ffordd i Ffyniant;

iv. adolygu'r defnydd o gronfeydd yr UE gan Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru yn ystod blwyddyn ariannol 03/04 a 04/05 wrth ddatblygu prosiectau;

v. adolygu'r prosesau a oedd ynghlwm wrth amrywio cronfeydd drwy gydol blwyddyn ariannol 03/04 a 04/05;

vi. adolygu swyddogaeth y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth a'i swyddogion yng ngwaith ariannu beunyddiol Awdurdod Datblygu Cymru;

vii. ystyried effaith polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar allu ariannol Awdurdod Datblygu Cymru i wireddu blaenoriaethau allweddol Llywodraeth y Cynulliad; ac

viii. gwneud argymhellion i'r Cynulliad Cenedlaethol ynghylch y ffyrdd gorau o ymgymryd â swyddogaethau cyllid y Portffolio Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth ar ôl uno Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru â Llywodraeth y Cynulliad.

d) Rhaid i'r pwyllgor adrodd i'r Cynulliad Cenedlaethol erbyn 30 Mehefin 2006 fan hwyraf; ac

e) Bydd y pwyllgor yn dod i ben ar 1 Gorffennaf 2006.

Mae Adroddiad Terfynol Diweddariad Gwerthusiad Canol Tymor Amcan 1 ar gael drwy ddilyn y ddolen a ganlyn:

*http://www.wefo.wales.gov.uk/default.asp?action=page&ID=1583*

.....................................

## Eitem 16 - Dadl ar ddefnyddio sefydliadau Gwely a Brecwast ar gyfer y digartref

**NDM2888 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cefnogi'r flaenoriaeth barhaus a roddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i fynd i'r afael â digartrefedd;

2. Yn croesawu cyflwyno deddfwriaeth i gyfyngu ar y defnydd o lety gwely a brecwast ac i wella ansawdd tai dros dro ar gyfer pobl ddigartref;

3. Yn cadarnhau’r gofyniad i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn ystyried anghenion iechyd, gofal cymdeithasol a phersonol y person digartref wrth gyflawni'u dyletswyddau i ddod o hyd i lety addas.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

*Yn unol â’r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae’r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau’n cael eu cynnal yn unigol:*

**(1+2+9+10)**
**(3+5)**
**(4+6+7+8)**

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):**

Cynnwys ar ddiwedd pwynt 1:

‘ond yn cydnabod bod cynnydd sylweddol mewn tai cymdeithasol yn rhan hanfodol o leihau digartrefedd.’

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):**

Cynnwys ar ddiwedd pwynt 1:

‘ond yn dal i fod yn bryderus mai'r sector rhentu preifat, sy'n cynnwys cyfran uchel o lety is na’r safon, yw'r prif ddarparwr.’

**Gwelliant 3 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Cynnwys ar ddiwedd pwynt 3:

‘ac yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i sicrhau eu bod yn cael eu cyllido'n llawn wrth gyflawni’r ddyletswydd hon.’

**Gwelliant 4 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Cynnwys ar ddiwedd pwynt 3:

’ar y sail bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bodloni’i haddewid i beidio â gosod beichiau nas cyllidir ar awdurdodau lleol.’

**Gwelliant 5 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i fonitro'n gadarn weddill y llety dros dro i sicrhau ei fod yn diwallu gofynion defnyddwyr y gwasanaeth.

**Gwelliant 6 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn mynnu bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n darparu sylfaen dystiolaeth gyda golwg ar yr angen am dai a'r cyflenwad tai ar gyfer llety i bobl ddigartref er mwyn gallu rhoi cynllun gweithredu priodol ar waith.

**Gwelliant 7 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod angen darpariaeth arbenigol ar gyfer categorïau o bobl ddigartref sy'n agored i niwed.

**Gwelliant 8 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn mynnu bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n rhoi blaenoriaeth i dai fel un o'r gwasanaethau cyhoeddus craidd er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng tai yng Nghymru.

**Gwelliant 9 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am ddyrannu'r adnoddau angenrheidiol i awdurdodau lleol i'w galluogi i leihau eu dibyniaeth ar lety gwely a brecwast.

**Gwelliant 10 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i geisio'r pwerau i ddiffinio "digartref bwriadol" yng Nghymru.

....................................

## Eitem 17 - Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2006

**NDM2889 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Ionawr 2006.

**NDM2890 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Chwefror 2006 ynghylch y gorchymyn drafft, Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y gorchymyn drafft, Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2006 yn cael ei wneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Ionawr 2006;

b) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Rhagfyr 2006; ac

c) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Ionawr 2006.

Dogfennau Ategol
Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2006
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Y Memorandwm Cywiriadau
Yr Arfarniad Rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

....................................

**Rhagwelir y bydd y cyfarfod yn dod i ben erbyn 5.30pm**

……………………………………….

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

## 2.00pm ddydd Mercher, 8 Mawrth 2006

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**